


Astudio'r gwyddorau naturiol yn ddwyieithog



Contents

Astudio'r gwyddorau naturiol yn ddwyieithog	4
Beth yw'r manteision o astudio drwy'r Gymraeg?	4
Gyrfaeoedd	5
OK, ond... ydy fy Nghymraeg yn ddigon da?	5
Pa adnoddau eraill sydd ar gael i astudio'r gwyddorau naturiol drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog?	6
Cydnabyddiaethau	7

Astudio'r gwyddorau naturiol yn ddwyieithog

Meddwl am astudio cwrs yn y gwyddorau naturiol? Ystyried astudio trwy'r Gymraeg ac eisiau gwybod beth yw'r manteision? Dim yn siŵr os ydy eich Cymraeg yn ddigon da? Os ydych chi'n darllen yr erthygl hon, digon tebyg fod y cwestiynau hyn wedi codi yn eich meddwl. Pwrpas yr erthygl hon yw ateb y cwestiynau hyn, a dangos sut gallai astudio'r gwyddorau naturiol drwy'r Gymraeg gwella eich profiad addysg uwch a gwella eich cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Beth yw'r manteision o astudio drwy'r Gymraeg?

Clywch gan athro:

Video content is not available in this format.


[Athro](#)



Clywch gan fyfyrwr:

Video content is not available in this format.

[Myfyrwr](#)



Pam dewis astudio drwy'r Gymraeg? Mae rhesymau a phrofiad pawb yn wahanol, ond dyma'r prif [fanteision mae myfyrwyr eu hunain yn nodi](#) o astudio cwrs drwy'r Gymraeg:

- [Cymorth ariannol](#) drwy ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Dosbarthiadau llai ac felly profiad dysgu fwy personol a chefnogol
- Dod i adnabod darlithwyr a chyd-fyfyrwyr yn well
- [Gwell opsiynau gyrfa a chyfleoedd cyflogaeth](#) trwy cael sgiliau ychwanegol ar y CV
- Codi hyder a gwella sgiliau iaith Cymraeg
- [Deall y pwnc yn well](#) trwy gweithredu mewn dwy iaith

Eisiau clywed mwy gan fyfyrwyr am y manteision o astudio cyrsiau drwy'r Gymraeg? Cymerwch olwg ar [flogiau Llysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) neu dilynwch [#laisllysgennad](#) ar trydar.

Gyrfaeodd

Gall astudio'r gwyddorau naturiol agor drysau i [ystod eang o yrfaeodd](#) mewn gwahanol sectorau, o ymchwil, addysg a chadwraeth, i'r cyfryngau, busnes a rheloeth, i enwi ychydig. Gall astudio cwrs yn y Gymraeg agor hyd yn oed mwy o ddrysau, gyda mwy a mwy o [gyflogwyr yn chwilio am raddedigion gyda sgiliau dwyieithog](#). Mae'r gallu i drafod pwnc ar lefel dechnegol uchel mewn mwy nag un iaith yn cael ei gydnabod fel sgil werthfawr gan gyflogwyr yng Nghymru ac ar draws y byd amlieithog.

Gwylwch [stori Helen](#) – warden Yr Wyddfa – am ei phrofiad hi o warchod y mynydd a gweithio mewn cymuned dwyieithog.

OK, ond... ydy fy Nghymraeg yn ddigon da?

Dim yn siŵr os ydy eich Cymraeg yn ddigon da i astudio pwnc gwyddonol drwy'r Gymraeg yn y brifysgol? Gall hyn fod yn bryder i rai unigolion am amryw o resymau. Efallai fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn brin. Neu efallai eich bod yn digon

cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau neu teulu, ond yn ansicr mewn sefyllfaoedd academiaidd. Efallai eich bod yn poeni am ddysgu terminoleg gwyddonol newydd yn y brifysgol. **Peidiwch â phoeni. Mae astudio drwy'r Gymraeg yn gyfle yn ei hun i adeiladu eich hyder yn yr iaith, trwy:**

- dysgu mewn grŵpiau bach gyda myfyrwyr o gefndiroedd ieithyddol amrywiol
- arweiniad gan diwtoriaid sydd yn arbenigwyr byd-eang yn eu maes
- cefnogaeth ieithyddol, megis:
 - cyrsiau sgiliau iaith
 - meddalwedd gwirio iaith [ar eich cyfrifiadur](#) ac [ar-lein](#)
 - geiriadurion termau [ar eich ffôn](#) ac [ar-lein](#).

Cymerwch olwg ar [flog Rhiannon](#), myfyriwr Sŵoleg, am ei phrofiad hi a'i 'tips' am astudio pwnc gwyddonol drwy'r Gymraeg.

Pa adnoddau eraill sydd ar gael i astudio'r gwyddorau naturiol drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog?

Yn ogystal â'r adnoddau byddwch yn derbyn ar eich cwrs, mae yna amryw o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar-lein i gefnogi eich dysgu a darganfod mwy am ryfeddodau'r byd naturiol! Dyma rai engrheifftiau:

- [Gwerddon](#) – e-gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys ymchwil ar ystod o bynciau gan gynnwys y gwyddorau Naturiol
- [Wicipediau Cymraeg](#) – gwyddoniadur Cymraeg sy'n seiliedig ar Wikipedia gyda dros 90,000 o dudalennau pwnc
- [Llên natur](#) – geiriadur enwau a thermau

Cydnabyddiaethau

Diolch i Dr Marion Pye am gynorthwyo gyda'r modiwl hwn.

Mae'r Brifysgol Agored wedi gweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu unedau dwyieithog, gan gynnwys yr uned hon, ar OpenLearn Cymru:

www.colegcymraeg.ac.uk

Rhoddir cydnabyddiaeth diolchgar i'r ffynonellau canlynol:

Lluniau

Gwyddonwyr yn gweithio yn y labordy (llun baner) AlexRaths/Getty

Meicrosgop (baner)/coleg (llun cwrs) Emma Cooper This file is licensed by Creative Commons Attribution-NonCommercial 2.0 Generic (CC BYNC 2.0) (<https://creativecommons.org/licenses/by-nc/2.0/>)

Gwneir pob ymdrech i gysylltu â dalwyr hawlfraint. Os fydd unrhyw un ohonynt heb gael eu sylwi ar ddamwain bydd y cyhoeddwr yn hapus i wneud y trefniadau bydd angen ar y cyfle cyntaf.